YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Y diweddar Barch. David Evans, Cwmiago.
Atgofion Siôn Ifan Siôn.
Anrhydeddu Undodwr (gyda Darlun).
Ymryson y Beirdd (gyda Darlun).
Interview â Gwyr Blaenllaw'r Enwad.
Rhodio'n Gywir.
Hen Atgofion am Llwynrhydowen.
Priodas.
Marwgofion. Nodion yr Eglwysi.

Cyf. L

Mehefin, 1950

Rhif 6

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, **7s. oc.** y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; ISLWYN PRITCHARD, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL L. MEHEFIN, 1950. RHIF 6.

Y diweddar Barch. David Evans, Cwmiago.

BYR GOFIANT.

"A Dafydd a hunodd gyda'i dadau."

GANWYD David Evans ym Mhenlôn Henryd ar yr 11eg o Chwefror 1860. Enwau ei rieni oedd Benjamin a Maria Evans.

Pan ddaeth i oedran ysgola, dechreuodd fynychu ysgol ddydd Llanwnnen a gedwid, ar y pryd, gan Ddewi Hefin. Pan oedd tua deg oed, symudodd ei rieni i fyw ym Modawel ar dir Llwynygroes. Gwnaeth ef ddefnydd da o'i ysgol, ond ni chafodd siawns i fynd o'r ysgol elfennol i ysgol ramadeg. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio am dymor byr yn Llanbedr, ac wedi hynny i siop yn Llangybi, oddi yno aeth i Borthcawl ac Abertawe.

Pan oedd yn gweini mewn siop yn y lle olaf, trawyd ef gan afiechyd peryglus a chyndyn, a bu rhaid iddo fynd adref am dair blynedd. Wedi iddo adennill rhan o'i nerth a'i iechyd cyntefig, dechreuodd ar y gwaith o gyfieithu i'r Gymraeg "The Unitarian Handbook" o waith y Parch. Robert Spears. Erbyn 1881 yr oedd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau, a'r llyfr wedi ei argraffu yn swyddfa J. Gibson, y Cambrian News, Aberystwyth. Tipyn o anturiaeth i hogyn un-ar-hugain heb arian o'r tu cefn iddo, oedd cyhoeddi llyfr o chwe ugain o dudalennau cynhwysfawr, ond bu Mr. Gibson yn hir-ymarhous wrtho, a dweud am beidio a gofidio, ond dod a'r arian fel y byddai'r llyfr yn gwerthu.

Ar ôl hyn, bu Mr. Evans am dymor yn gweithio mewn siop yng Nghribyn, gyda Benjamin, mab Evan Evans, y Siop, Llanwnnen ; ond erbyn hyn yr oedd ei fryd ef yn bendant ar y weinidogaeth.

Aeth i ysgol Ramadeg y Parch. William James, B.A., gweinidog Undodaidd yn Llandysul a Llwynrhydowen, ac mewn llai na dwy flynedd, yn 1882, pasiodd yn llwyddiannus yr Arholiad Derbyn i Goleg Henadurol Caerfyrddin. Bu'n efrydydd diwyd iawn yno

am bedair blynedd, ac ar ddiwedd ei dymor, cynygiodd y Prifathro, y Dr. Vauce Smith gymorth ariannol iddo, os ai i Goleg Aberystwyth i astudio am radd. Nid oedd Mr. Evans yn fodlon pwyso ymhellach ar ei rieni ; bu rhaid iddo fwy nag unwaith, yn ystod ei gwrs yng Nghaerfyrddin, fenthyca arian oddiar Evan Evans, y Siop, Llanwnnen, hyd oni ddoi llong i borthladd, a chardod o ryw gronfa neu'i gilydd.

Pan oedd ef yn ffarwelio a Chaerfyrddin, bu farw'r Parch. W. E. Davies ym mlodau ei ddyddiau, gan adael cynulleidfa'r Cribyn heb weinidog, ac Ysgol Ramadeg Llanybydder heb athro. Gofynnwyd i Mr. Evans lanw lle Mr. Davies yng Nghribyn a Llanybydder. Cydsyniodd yntau, a dechrau ar ei waith yn uniondeg yn 1886.

'Rwyn cofio'n dda am Mr. Evans yn dechrau ar ei weinidogaeth yng Nghribyn. Digon di-addurn, oddimewn, oedd y Capel y pryd hwnnw—y seddau (corau y galwem ni hwynt) a chefnau uchel, syth iddynt, wedi eu gwneuthur o goed gwynion, tyner ; ac wedi eu paentio a lliw plwm, ac yr oedd pryfed yn gyflym yn eu malu'n llwch.

Yn 1887 cliriwyd ymaith bob modfedd o bren o'r tu mewn i'r Capel (ond y nenfwd), a dodrefnwyd o'r newydd o goed pîn pyg ; hefyd gosodwyd i fyny, am y tro cyntaf, oriel hardd a chynhwysfawr.

Yn 1892 symudodd Mr. Evans ei Ysgol o Lanybydder i Lanbedr a oedd yn fwy cyfleus i lawer o'i ysgolorion, ond yr oedd Llanbedr bron mor bell a Llanybydder o Gwmiago, ac yr oedd teithio i'r Ysgol ac ohoni, bob bore a hwyr, yn enwedig ar dywydd brwnt, yn gryn dreth arno. Am hynny gyda chydsyniad a chyd-weithio cynulleidfa Capel Cribyn, llwyddodd i godi festri newydd yno i wasanaethu fel Ysgoldy i'r Capel ar y Sul, ac ysgoldy iddo yntau ar hyd yr wythnos. Nid heb waith caled a llawer o bryder y llwyddodd ef i glirio'r ddyled, a dywedodd wrthyf, ychydig cyn ei farw, fod tipyn o'i arian ef ei hun yn y festri.

Yn 1895 yr oedd y festri yn barod, a symudodd yntau ei Ysgol o Lanbedr i Gribyn. Bu ei Ysgol yn llwyddiannus iawn yn Llanybydder, Llanbedr a Chribyn, ac i lawer o fechgyn a merched, agorodd y drws i amrywiol alwedigaethau bywyd. Yr oedd ganddo stôr helaeth o wybodaeth o wahanol diriogaethau byd addysg—yn enwedig Groeg, Lladin a Mathemateg. Yr oedd yn athro craffus a doeth, ni wastraffai eiriau yn yr Ysgol, ond sicrhai ddisgyblaeth mewn ffordd dawel a didwrw.

Yn 1899 daeth eglwys Capel-y-groes hefyd o dan ei fugeiliaeth ef, ond cadwodd ei Ysgol ymlaen hefyd hyd 1906. Yn 1908 priododd a Jane, merch Mr. a Mrs. John Lewis, Dowlais, ond bu hi farw yn 1928 ar ôl ugain mlynedd o fywyd priodasol. Yn yr un flwyddyn ymddeolodd yntau o'r weinidogaeth, wedi gwasanaethu yng Nghribyn am ddwy a deugain o flynyddoedd, ac yng Nghapel-y-groes am naw-ar-hugain.

Yn gyffredin, ni chyfrifid Mr. Evans yn bregethwr mawr. Oherwydd gwaith yr Ysgol nid oedd ganddo gymaint o amser i baratoi ' pregethau mawrion ' a llawer o weinidogion, nac ychwaith gymaint o amser i fynd i gyfarfodydd pregethu ar hyd yr wythnos. Nid oedd ganddo lais mawr, ond yr oedd yn llais crwn, cryno, eglur a'i barabl yn glir a dealladwy hyd yn oed mewn capel gweddol eang.

Ysgrifennai Mr. Evans bob un o'i bregethau yn llawn, ac mewn iaith ramadegol chwaethus. Traddodai'r bregeth fel yr ysgrifenasai hi—ni chlywais ef erioed yn defnyddio tafodiaith ddyddiol ei gymdogaeth o'r pulpud, nac yn gwneuthur ymdrech i ddifyrru ag ysmaldod (*wit*). Ni chredai Mr. Evans ychwaith yn y gwrthuni sydd yn rhy gyffredin heddiw, sef darllen rheffynnau o ddyfyniadau o'r Saesneg mewn pregeth Gymraeg. Yr oedd ei bregeth ef bob amser wedi ei meddwl a'i chynllunio'n fedrus, a gwell o lawer gennyf i, oedd gwrando arno ef yn trin ei bwnc, nag ar lawer un arall, a ystyrid gam yn nes i reng ' y pregethwyr mawr.'

Yr oedd hefyd yn llenor gwych. Ysgrifennodd lawer o erthyglau i'r YMOFYNNYDD, a bu'n olygydd arno am dymor. Gadawodd mewn llawysgrif draethawd helaeth ar "Hanes Addysg yng Nghymru" a ddanfonodd i gystadleuaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe lawer o flynyddoedd yn ôl. Cafodd y traethawd ganmoliaeth uchel y diweddar Owen M. Edwards, un o'r beirniaid, ac wedi hynny gwellhaodd Mr. Evans y diffygion a nodwyd gan y beirniad. Hefyd, gadawodd ddwy neu dair o'i storïau ei hun mewn llawysgrif, a rhai dramäu byrion. Ymhellach, yr oedd ganddo gasgliad o hanes ei gymdogaeth enedigol, a'r bobl o nod a fu fyw ynddi. Hyd yn hyn, ni chefais amser i ddarllen y cyfansoddiadau a enwais ; felly, ni allaf roddi barn arnynt. Teimlaf yn sicr eu bod yn ddiddorol.

Bu Rhagluniaeth yn garedig wrtho, trwy adael iddo ei gynheddfau cryfion yn ddilwgr bron hyd y diwedd. O'i symud ef teimlir colled a gwacter yn Nyffryn Grannell, ond erys delw'i bersonoliaeth yn hir o flaen llygaid y cof, a bydd grasusau ei gymeriad yn ysbrydiaeth i bawb a gafodd y fraint o'i adnabod.

J. ISLAN JONES.

STORI.

PAN briododd ein ficer danfonodd ffrind deligram i longyfarch ei wraig mewn ffurf o destun o'r ysgrythur. Nid oedd dim ar y pellebyr ond cyfeirnod i'r testun sef I Ioan, iv.18. Ond rywsut yn y post collwyd y ffigyren I, a'r peth a dderbyniodd y wraig ifanc oedd Ioan iv.18. Gallwch ddychmygu pan ddarllenodd nid "Nid oes ofn mewn cariad, eithr y mae perffaith gariad yn bwrw ymaith ofn", ond "Y gŵr sydd gennyt yr awrhon, nid yw ŵr i ti".—(J.T.D.).

Atgofion Sion Ifan Sion.

RHAGAIR—DARGANFYDDIAD PWYSIG.

Y MAE rhai pethau yn digwydd yn ddisymwth iawn ac un o'r pethau hynny yw "Atgofion Siôn Ifan Siôn." Tua chanol mis Mawrth gwelais lythyr diogel ei faint a diogel ei rwymiad ymysg y swp llythyrau tu ôl i'r drws yn y bore. Datodais ef yn awchus ac o'r tu mewn yr oedd llythyr mewn amlen ac amlen arall eto yn cynnwys cryn hanner cant o dudalennau o bapur wedi melynu gan henaint ac yn dwyn arnynt ysgrifen wladaidd yr olwg. Cyn na brecwast na dim arall dechreuais ddarllen y llythyr ac fe oleuodd pethau gryn dipyn pan welais "Annwyl Jacob" ar ei ddechrau. Bellach gyda chaniatâd ysgrifennwr y llythyr, fel y bo'r hanes yr un mor glir i chwi ac i minnau, dyfynnaf o'r rhannau hynny o'r llythyr sydd a fynnom a hwy at ein pwrpas. Dyma fe,

"Annwyl Jacob,—

Sut wyt ti'r hen gena ? Ia, dyna fo, gwell iti sbïo at ddiwadd y llythyr yma y cnaf busneslyd fel ag wyt ti. Wyt ti'n bethma 'rwan dywad ? Ia, fi ydi o, yn glamp o dwrne pin streip 'fath a Syr Patrick Hastings 'stalwm. Eitha nob 'te ! Ysgwn i a ydan nhw wedi dy grogi ditha mewn colar gron. (Chwarae teg iti, fasa dy wynab di'n edrach yn go iawn mewn colar gron !). Wel, dim ond rhoi dy enw ar bapur a dyma fi'n cofio am y dyddiau braf hynny yn y Coleg ger y Lli a chofio am y triciau a'r direidi. Ia, fedra'i byth anghofio'r hen ddynas o landledi yn gofyn i Wil Wil a minnau (*y ddau'n ogleddwyr rhonc—Gol.*), meddai hi—"fisech chi'ch doi yn lico pobi wy ?" Yr achlod fawr ! Yr oeddwn wedi clywad am *poached egg* ac am *scrambled egg*, omlet ac wy wedi ffrïo—ond *pobi* wy, pa fath weithred arswydus oedd honno. Aeth y wraig fach allan i ni gael amser i feddwl a chysidro, ond pan ddaeth yn ôl gan ofyn "leicsech chi *gâl* pobi un ?" dyma ni'n torri allan yn bwff-baff a chwerthin dros y tŷ. Bu raid newid lodgings cyn pen wythnos. A wyt ti'n cofio'r bechgyn yn dod â'r sein DANGER, MEN WORKING i mewn i'r llyfrgell a'i gosod ar y ddesg o flaen rhestr o fyfyrwyr diwyd y gyfraith . . .

. . . Ond yrwan, at bwnc a phwrpas a chynnwys y llythyr yma ac y mae'n stori o hir 'dwyn ofni. Gwell i mi ddechrau yn y dechrau a'th atgofio fy mod, fel y gwyddost, wedi gorfod ymuno â'r Awyrlu pan oedd y Brenin mewn tipyn bach o drwbl tua 1942. A rhag dy flino â llawer o fanylion am sut y deuthum a'r hen foi allan o'i drwbl, nodaf un ffaith bwysig yn unig, sef fy mod wedi gorfod treulio naw mis o'r ymarfer yn America. Fel y digwyddodd, fy nghanolfan ymarfer i oedd Niles, tref gerllaw Alliance yn nhalaeth

Ohio, a bûm mor ffortunus a chael fy lletya gyda theulu o linach Cymreig. Ni wyddwn hynny ar y dechrau ac ni wyddent hwythau mai Cymro oeddwn innau chwaith gyda'r syrnâm fforin yma sydd gennyf. Fel y gwyddost efallai, nid oes gan yr Americanwr cyffredin fawr o le i'r Sais, neu 'Johnny Bull' fel ei gelwir a derbyniad digon cwrtais ond digon oeraidd a gefais. Ni allwn ei beio cofia, oblegid cael ein gwthio ar y tai oeddem ni fel yr oedd yr Americanwr yn cael i wthio i dŷ hwn a'r llall yn y wlad yma. Ond o dipyn i beth wrth sgwrsio a sbïo ar hen lyfrau ar silff gongol yr ystafell wely yn slei bach, mi ffeindiais mai Cymry oedd y gweilch. A welaist ti erioed ffasiwn newid a ddaeth dros y lle—yn wir gallwn feddwl mai y fi oedd y Prince of Wales. Ham a wyau (heb i pobi !) hufen a phob codl y gellit feddwl amdano a'm bwrdd bwyd fel gwledd Belsasar. Yr oedd car mawr at fy ngwasanaeth a chroeso i mi dreulio'r hwyr ar eu haelwyd. Ni siaradent ddim Cymraeg ond byddent yn dotio fy nghael i eistedd wrth y piano a chanu rhai o'r hen emynau iddynt. Yn sydyn, un noswaith, nos Sul i fod yn gywir, dyma'r hen fachgen yn codi ac yn mynd i fyny'r llofft. Toc, daeth yn ei ôl â'r pecyn papurau melyn-liw yma yr wyf yn ddanfon atat, yn ei law. I dorri'r stori'n fyr, fe eglurodd mai llawysgrifau ei dadcu oeddynt yr hwn a ddaeth allan i'r America yn yr 'eighteen forties,' chwedl yntau. Wedi ffoi oedd y tadcu yma o un o ardaloedd gwaelod Ceredigion adeg y Becca, a dichon y byddi di yn abl i wybod pa ardal. Yr oedd yr hen fachgen wedi clywed ei dad yn eu darllen a'i trosi i'r Saesneg iddo (gymaint a fedra) a bu raid i minnau gyfieithu rhai o'r hen bethau i'r cwmni'r noson honno. Ond yn rhyfedd iawn, wyst ti, nid oedd ganddynt lawer o ddiddordeb—pobl y pethau newydd a'r pethau mawr ydi'r Americanwyr bob tro. Ac yn hollol ddidaro dyma fo'n taro'r pecyn yn fy llaw ac yn deud, "*Take them home to the li'l ole Country, perhaps you'll find some seminary or library to take interest in them.*" Fe'u darllenais i gyd ac y maent yn aruthrol o ddiddorol fel y cei weld ac fe fuont dros hanner y byd yn yr hen "Kit-bag." Wedi dod 'nôl anghofiais amdanynt hyd oni welais gyfeiriad atat yn y *Faner* fel Golygydd YR YMOFYNNYDD. Yn sydyn (fel arfer !) dyma fi'n penderfynu eu danfon atat gan dybio y gallent fod o ddiddordeb i ddarllenwyr dy fisolyn. Oni chredi y gelli eu defnyddio danfon hwy yn ôl yn saff, a hyd yn oed os byddi yn eu copïo byddaf amdanynt 'run fath—mae golwg gennyf ar yr hen drysorau. Wel cofion atat a dyro air cyn hir.

Yn gywir,

Ted Mason (Ted Sir Fôn).

Wel, dyma'r cyfan am y tro, a dywedaf ar frys fy mod yn neidio at y cyfle i gyhoeddi ysgrifau sy'n werthfawr tuhwnt o safbwynt llên gwerin cylch Llandysul, oblegid dyna'r ardal yn ddiamau.

Gwelaf oddi wrth y cyfeiriad ar y dechrau i'r awdur, Siôn Ifan Siôn fwriadu eu cyhoeddi ym ' Maner ' America, tua 1872, ond wedi chwilio a holi yn ystod y ddau fis diwethaf yma gwelaf na ddaeth hynny i ben. Gofalwch sicrhau copi o'r rhifyn nesaf sy'n dechrau gydag hanes helyntion y Becca a thorri clwydi. Fe ddilyn pob math o gofion, straeon, penillion, arferion, posis, etc.

Anrhydeddu Undodwr.



Mr. D. R. Davies.

Bu Mr. D. R. Davies yn gwasanaethu Cyngor Tref Aberdâr am 53 o flynyddoedd gan ddechrau fel bachgen yn y Swyddfa a dringo i le cyfrifol yn y swyddfa drethi. Pan ymddeolodd y dydd o'r blaen anrhegwyd ef ac oriawr-arddwrn hardd mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor, ac fe dalwyd teyrnged iddo am wasanaeth hir a thrwyadl. Mr. Davies yw Trysorydd yr Hen Dŷ Cwrdd, a bu unwaith yn organydd yr eglwys hefyd. Daw o linach y Parch. W. J. Davies (awdur *Hanes Plwyf Llandysul*, a gweinidog y Bwlch) ac y mae'n dad i Mrs. Marles Thomas, Cefn.

Ymryson y Beirdd.

Chwith i'r dde : Y Parchn. G. R. Tilsley, M.A. ; Morgan Price ; D. Jacob Davies, B.A. ac Eirian Davies, B.A.

Y mae ' Ymryson y Beirdd ' yn hysbys i lawer bellach fel cystadleuaeth a gynhelir ar yr awyr rhwng beirdd o bob man. Ceir dau dîm a'r beirniad yw'r Prifardd Meuryn a bydd ef yn gosod y gamp ac yn gwrando'r ateb mewn stiwdio ym Mangor. Wrth y meic mewn ystafelloedd eraill naill ai ym Mangor neu Gaerdydd mae'r gornestwyr, a rhaid iddynt ateb y llinell a roddir iddynt mewn cynghanedd ymhen munud neu ddwy, un yn erbyn y llall o hyd. Enillodd gwŷr Aberdâr (a welir uchod) dair gwaith bellach a rhoddir isod rai o'r llinellau a gyfansoddwyd ganddynt wrth y meic. Rhyw chwarter awr cyn yr ornest rhoddir testun englyn i'r tîm hefyd ac fe gyfansoddir hwnnw gan y pedwar yn cydweithio. Y mae'n gamp gwneud llinell o gynghanedd eithr camp aruthrol yw gwneud un ar frys ac mewn lle mor ofnadwy â stiwdio—heb sŵn nant nac awel o wynt i helpu'r awen. (Rhoddir y llinellau a osododd Meuryn i'w ateb mewn llythyren *italaidd*, neu lle na osododd ddim ond gair neu odl i'w cynnwys mewn llinellau ceir y rheiny hefyd mewn llythyren *italaidd*. Argreffir gwaith y bardd mewn teip cyffredin).

Y Parch. Morgan Price :

Gawn ni ben ar ddogni bwyd
Hyn yw'r gofyn a gafwyd.

Yno mae llwyni a chae meillionog
A thrydar adar sydd yn odidog
eto (Daw mawl y dolydd o demlau deiliog).

Aeth sisial iaith y Saeson
Heddiw'n friw dwfn i'r fron.

Ateb y gogleddwr : (Yn glwy o Fynwy i Fôn).

Mae ei wrid yn *odidog*
A'i gân mor bersain â'r *gog*.

D. Jacob Davies :

Ar ryw eneth gwirionodd
Wyrth o ferch, mae wrth ei fodd.

Ai rhodio mwy raid i ni
Neu aros i'r car oeri.

Llawer gwell i ŵr gwan
Yw huno wrtho'i hunan.

Yn ei ben mae chwilen bach
Â'n syth ar drywydd sothach.

Yn y ddawns y gwelodd hi
Un hwyrnos, rhoes winc arni.

G. R. Tilsley :

Llifeiriol yw'r llefarwr
Mawr ei geg a llym yw'r gŵr.

Gwelir ar amser *gwyliau*
Rwydo i oed lawer *dau*.

Ond digrif yw gweld dagrau
Y weddw hon a gladdodd ddau

Eirian Davies :

Onid gwell i'r Canghellor
Yw mynd ar ei ben i'r môr !

Hagru Eryri yw'r gri yr awron
Troi hoff Walia yn wlad twr a pheilon.

Rhowch well llinell i'n llonni
—Un ffraeth yn rhedeg yn ffri.

Dyma'r ddau englyn a gyfansoddwyd ganddynt, a da gwybod fod pedwar enwad wedi uno i wneud y rhain.

SHONI.

Bachan rhadlon yw Shoni—er ei graith
Caria'i groes mewn cyni ;
Os braidd yn rhy hoff o sbri
Yn ebrwydd y myn sobri.

Y SENEDD.

Lle'r sŵn yw llawr y Senedd,—edliw poeth
Dadlau pwnc i'w ddiwedd ;
Gwersyll dan reol gorsedd
Arwain hon werin i hedd.

O.N.—"DAFIS CASTELL HYWEL." Rhaglen Radio Arbennig. Mehefin 16, 8.15—9 p.m.

Interview a Gwyr Blaenllaw yr Enwad.

Gan Walch Ogwr.

IX.

Y CODWR CANU.

Neithiwr cydiais yn Llyfr Gwyn Rhydderch, ac wrth droi yr hen dudalennau sylwais ar baragraff ym Mreuddwyd Rhonabwy :

"Padu, Iddawg, y cefaist di y dynion bychain hynny ?"

"Mi a'u cefais, Arglwydd, uchod ar y ffordd" : sef a oruc yr Amerawdr glaswenu.

"Arglwydd," heb Iddawg, "beth a chwerddi di ?"

"Iddawg," heb yr Arthur, "nid chwerthin a wnaf, namyn truaned gennyf fod dynion cyn fawed a hyn yn gwarchadw yr ynys hon gwedi gwŷr cystal ag a'i gwarchetwis gynt."

Y mae yr awdur yn dilyn Sieffre ac yn edrych yn ôl gan gymharu gwŷr heddiw a gwŷr ddoe, ac am y tro fe'i dilynaf gan gymharu yr hen gerddorion heb lyfr tonau nac organ, yn cymryd sŵn o'r bitchfforch ac yn canu cwpled ar ôl cwpled â cherddorion heddiw. Ni ddywedaf nad aent i drybini'n aml. Cofiaf glywed sôn am hen godwr canu—Twm Shams Stefyn—Yr oedd yna bregethwr ifanc wedi rhoi gair anghyfarwydd i'w ganu. Ar waethaf y bitchfforch ni chaid priodas rhwng y dôn a'r emyn. O'r diwedd dywedodd y pregethwr yn ddiniwed,

"Ddaw hi ddim fel yna, Mr. Stephens."

Gofynnodd yr hen godwr canu yn sarrug, "Fedrwch chi ganu ?"

"O na fedraf i," oedd ateb swil y pregethwr.

"Wel," meddai'r hen godwr canu â'i lygad yn sirioli, "Gadewch chi rhyngthw i a hi. Fe wna i iddi ddod, a thipyn yn spâr hefyd."

Hwyrach fod tipyn o'r dôn yn spâr ar ambell i dro, ond yr oedd yr hen *frigade* ar eu gorau, ac o feddwl am Gymanfa Ganu Llandysul dechreuais alw i gof yr hen godwyr canu. Ni wn a fedraf fynd i Landysul. Y mae'r ffordd ymhell a'r camre'n llesg, a'r llais yn wichlyd, ond medraf fod yn ysbryd y gân yn gwrando ar yr hen gantorion yn y cwmwl tystion. Hoffwn fedru darlunio pob cymanfa o amser John Lloyd, Pantywilco hyd at gymanfaoedd Idris Griffiths, ond thâl hi ddim, er bod atgof am lawer cymanfa yn felys dros ben. Pan oeddwn yn llanc ifanc ys llawer dydd, nid oedd neb yn medru'r Tonic Solffa, a dôi Jones y Cantwr o Aberaeron i gadw Ysgol Gân yn yr henfro er mwyn dysgu'r Tonic Solffa ar hyd a lled Ceredigion, neu dyna a ddywedai'r hen bobol. Y Cerddor mwyaf ymhlith y gweinidogion ond odid slawer dydd cyn dyddiau Arthur Thomas a Gwilym Evans oedd y diweddar Barch. W. J. Davies, y Llwyn. Wedi iddo ddod i'r eglwysi yn sir Aberteifi cyfarfu un dydd a'r Parch. Thomas Thomas, Criborfawr. Aeth y siarad at y canu, a gofynnodd yntau i Mr. Thomas p'un o'r ddwy oedd well ganddo, y Tonic Solffa neu'r Hen Nodiant. Atebodd Mr. Thomas ef nad oedd ganddo wahaniaeth rhwng y naill a'r llall. Distawodd ŷ Cerddor, ac wedi galw mewn fferm gyfagos dywedodd ei fod wedi cwrdd a Mr. Thomas, a'i bod yn un o'r cerddorion gorau yn y wlad. "Pwy ddywedodd wrthych," gofynnodd gwraig y tŷ, ac aelod o Bantdefaid. "Mr. Thomas ei hun," meddai Mr. Davies, "Nid oes dim gwahaniaeth ganddo rhwng y naill a'r llall." Chwarddodd gwraig y tŷ gan ddweyd, "Digon gwir. Ni ŵyr ddim am un yn fwy na'r llall." Nid oedd Mr. Thomas yn ganwr.

Gallaswn innau ddweud fy mod yn cofio Caradog ac yn ei gôr, ond hwyrach y buaswn yn dweud gormod drosto, ac y byddai yn "gelwydd golau," chwedl Crwys. Dowch i alw yr hen gantorion i'r Seiat yn hytrach. Dyna John Lloyd, Pantywilco, arweinydd y Gymanfa Ganu gyntaf, a chofiaf fel doe am y Parch. John Davies

yn ei araith fel llywydd yn rhoi hanes y cymanfaoedd o'r gymanfa gyntaf honno hyd ei ddydd ef.

Dyna Eiddil Jones o Gefncoed a fedrai gael torf i ganu ; Evan Evans, Ciliau, tal ac union ; Dafydd Hughes, Rhydyfydyr heb nemor ystum ganddo ond yn chware'r amser a'i fys ; Thomas Aeron Davies a'i enaid yn y gân ; Dafydd Jenkins, Blaenwaun ; Dafydd Jones, Tydwgi ; Hefin Williams, un o arweinyddion Côr gorau ac yn medru neidio fel y wiwer o un llais i'r llall fel y buasai galw ; J. R. a'i farwd Thomas o Fwlchyfadfa ; Evan Richards Half Moon ; Y Morganiaid o Drebanos ; a Thomas o Tylorstown ; teulu Tanlan, Cribyn ; Daniel Davies, Tŷ Capel, Caeronnen a llawer arall yr wyf wedi ollwng dros gof. Nid oedd y benywod wedi dod i'r ffrynt yr adeg honno ond i ni eithrio hwyrach Miss Jones, y Wern. Lawer noson dychmygaf glywed yr hen gerddorion yma yn canu'i chalon hi, ac yn canu a'r ysbryd a'r deall ac yn cadw ysgol gân a'r cantorion ieuainc yn tyrru yno i ddysgu rhedeg y modulator. Ni wn pam, ond ychydig o'r hen gerddorion a wyddai sut i drin y cordiau a chyfansoddi tôn. Yr oedd yna nythaid o gyfansoddwyr tonau yn Llanbedr, Hefin Williams, Aeron Davies, ac yn awr David Jones, o Wasg Gomer a Mrs. Rees, awdur Afallon, ac ni ddylaswn anghofio awdur tôn Gellionnen na thonau hyfryd y diweddar Dan Davies. Y mae gennym fwy o feirdd na Chantorion, a llawer llai o awydd dysgu canu nag yr oedd hanner canrif yn ôl. Yr oedd pawb rywsut y pryd hwnnw yn medru tôn, ond gyda'n cyfleusterau mewn ysgol a phobman nid ym nemor ar y blaen (efallai ein bod ar ôl) ar yr hen gerddorion diddysg a diysgol yn ein tyb ni. Y mae'r Cinema ymlaen na'r Ysgol Gân, ac y mae rhedeg tôn yn ormod o orchwyl i gantorion heddiw wedi cael pum mlynedd yn y Cownti Scŵl. Faint o'n cantorion a fedr redeg tôn ar yr olwg gyntaf? Beth amdani heddiw? Y mae'r cerddorion yn anaml. Y mae'r hen dô wedi mynd. Y mae'r tenors wedi heneiddio. Y mae James Thomas yn sir Benfro wedi anghofio'r gân. Y mae John Thomas, Aberdâr yn tynnu ymlaen mewn dyddiau, a Timo a'i ffliwt heb fod mor glir ag oedd hi â'r Derwydd yntau a'r nodau'n dod a chamre petrus ; y mae David Jones, Dolgerdd gynt wedi peidio canu ond ar y Sul, a phe bai Terwyn ac un neu ddau arall, David Evans, Alltgoch ac un o ardal Pontshaen yn dala anwyd, dyna'i diwedd hi. Y mae yna nifer o altos yn dal i ganu ond ychydig yw eu nifer, a hwythau chwedl Dr. Hopcyn Evans, yn siwgwr candi'r côr. Y mae'r bass a swniai gynt fel drwm i'w deimlo'n flinedig. Edrychaf mewn adgof ar y galeri a gwelaf eto Evan Richards, Arthur, Penry, Evan y Gof, Davy Painter a llu eraill, ond nid erys o'r hen frigade ond Sychdy, Tom Davies, Rhys y Felin, ac un neu ddau arall. Nid oes yna nemor faswr ieuanc ar ffrynt y galeri. Y mae yna rai, a diolch amdanynt, ond rywsut dibynwn ar yr hen leisiau.

Hyd yn oed gyda'r Soprano, yr un rhai sydd yno heddiw ag ugain mlynedd yn ôl. Dywedir am bob Cymanfa—"Dyna'r gymanfa orau eto," ond ofnaf nad ym ond yn ceisio twyllo'n hunain, a chyfreithloni ein diffyg ymdrech. Hyd y gwn gellir dweud fod llwyddiant y Gymanfa Ganu yn dibynnu ar yr hen gantorion. "Eraill a lafuriasant a ninnau a aeth i mewn i'w llafur hwy." Ni wn a oes yna ddiwygiad yn y fro. Y mae'r boneddigesau wedi cydio yn yr awenau, ac ond iddynt ddal ymlaen hwyrach y cawn adfywiad, ac y mae'i eisiau. Pe bai côr mewn ardal yn cynnig mewn eisteddfod ni chollid *practice am benshwn*, ond y mae un neu ddwy ysgol gân ac un rehearsal undebol yn hawlio *ffrynt seat* ar y galeri yn y gymanfa. Y mae eisiau sêl a ffyddlondeb ie eisiau deuparth o ysbryd yr hen gantorion arnom os ydyw y Gymanfa Ganu i flodeuo fel cynt. Oni fedrwn ennyn ynghalonau'r ifainc gariad at y gân gan ddeffro ynddynt nid awydd i ganu maswedd, ond awydd i foliannu Duw ar gân. Os medrwn, cawn ddywedyd yfory, er bod nifer o'r hen gantorion a'u telynau ynghrog ar yr helyg a'u tannau'n ufflon i gyd, fod y gân eto'n fyw ac na bydd diwedd byth ar sŵn y Delyn Aur.

Ôl Nodyn.—Deallaf fy mod yn anfwriadol wedi dolurio y Dr. R. O. Jones yn fy ysgrif ddiwethaf drwy imi ddywedyd yn *anghywir* ei fod wedi bod tan weinidogaeth y Prifathro J. D. Jones. Deallaf fod y Dr. Jones wedi ymadael â Threbanos cyn i'r Prifathro fynd yno. Y mae hynyna'n glir a phendant. Yr wyf yn cywiro fy nghamsyniad ac y mae'n ddrwg gennyf amdano. Ni fynnwn wneud cam â Dr. Jones na'i glwyfo. Rhag ofn bod rhywun arall wedi cymryd yr ysgrifau hyn yn rhy sariws, ymddiheuraf am bob camsyniad ond da chwi peidiwch a thynnu casgliadau na feddyliai yr un dewin amdanynt, a'u tadogi i mi.—*Gwalch Ogwr.*

Rhodio'n Gywir.

Gan Gama.

Wn i ddim pam, ond cyfrifwyd fi'n fwy twp na'r plant eraill yn ein tŷ ni. Mae mam yn taeru fy mod yn tebygu i fobol 'nhad a 'nhad yn dweud fy mod yn tebygu i fobol mam. Ond bellach mae gennyf le i ddiolch i fachgen bach o grydd am agor fy llygaid ynghylch rhywbeth fu'n fy mhoeni am flynyddoedd. Rhybuddiodd 'nhad a mam fi'n ifanc iawn i rodio'n gywir, "O'r gorau," meddwn innau er nad oedd gennyf wawr beth oeddynt yn feddwl wrth hynny. Yr oeddwn yn ormod o lances i ofyn am

eglurhad a phan ddeuthum yn ddigon mawr i fynd i'r Ysgol Sul yr oedd yr athro yno yn dweud yr un peth yn gywir, ac yn union yr un peth yn yr ysgol ddyddiol, "*Cofiwch rodio'n gywir.*" Ac y mae'n rhyfedd meddwl fy mod wedi dod i oed pwyll a synnwyr, ys gwedo'r hen bobol, cyn ei ddeall, ac yn fwy rhyfedd fyth, mae'r bachgen o grydd yma a wnaeth i mi sylweddoli beth oedd ganddynt i gyd. Wel dyma'r stori air am air i chwi. Euthum a phâr o shŵs i'r crydd ryw ddiwrnod er mwyn iddo gyweirio'i sodlau i mi. "Byddant yn barod nos yfory," meddai, ond gan fy mod yn gwybod am 'yfory Sion Crydd' arosais wythnos cyn galw. Telais ef am ei waith gan ddweud y gwisgwn hwynt i fynd gartref ac fel hyn y bu. "Diolch yn fawr," meddwn wrth fynd drwy'r drws—" 'Does raid," meddai yntau, "ond hwyl fawr i chwi *rodio'n gywir* am ychydig eto." Wel, dyna'r stori i chwi. Wedi'r holl fygythion gan nhad a mam a'r athrawon, y crydd a'm goleuodd. Nid *dweud* a wnaeth ef ond *gwneud*, a dyna falch oeddwn wrth fynd adref na fûm mor ddisylw a gofyn i neb beth oeddynt yn feddwl wrth '*Rodio'n Gywir.*'

Hen Atgofion am Llwynrhydowen.

(*Parhad*).

Gan J. C. Jones, Brynteify.

Yn rhifyn Mai rhoddais ychydig fanylion parthed gwleidyddiaeth y wlad cyn amser y Troad Allan yn y Llwyn, er rhoddi amcan ac arweiniad i feddwl y darllenydd ieuanc am wraidd yr holl helynt. Nid anturiaf ddim pellach ar y mater hwn gan ei fod yn wybyddus i bawb, eto ein hamcan presennol yw ei gadw ar gof y plant sydd yn codi. Mae yna bosibilrwydd fod hyd yn oed athrawon yn ein ysgolion Sul yn amddifad o'r hanes, ac yn esgeuluso gwerth cadw ar gof ymdrechion amhrisiadwy ein tadau a'n mamau. Hynny yn unig yw amcan ysgrifennydd y llith hwn.

Fy Mhlentyndod.

Tua'r flwyddyn 1877—78 cofiaf am ryw ffws fawr bob dydd bron yn fy nghartref, ond ni wyddwn beth oedd yn bod. Eithr fel pob plentyn yr oeddwn yn holi, holi o hyd nes i fy mam ddweud fod dyn yn dod i bregethu yno dydd Sul. Daeth bore Sul, a gwelais ddyn tal *slim* yn dod a sefyll ar waelod stâr y llofft i siarad, a llond y tŷ a'r clôs o fobl yn gwrando. Dro arall eto, dyma barotoadau mawr yn cael ei gwneud ar glôs y felin, a llwyfan mawr yn cael ei godi wrth dalcen yr odyn grasu llafur, a'r hen faen cerrig malu yn

llawr iddi. Hefyd gosodwyd bordydd stolau a ffyrymau yn rhestr ar y llawr wrth droed y llwyfan. Trannoeth daeth yr un pregethwr eto, a llu o fobl â cherbydau fel nad oedd lle i symud ar glôs eang y felin. Nid oedd yno stondingau na dim i'w werthu na'i brynu, dim ond distawrwydd perffaith, a'r dyn tal eto yn sefyll ar y llwyfan ac yn siarad. Oddi amgylch iddo gwelais ddynion yn ysgrifennu drwy'r holl amser. Cefais wybod ar ôl hynny mai gohebwyr y *Western Mail*, *Daily News*, *Manchester Guardian* a phapurau eraill oeddynt i gyd. Dyna'r unig olygfa o'r Troad Allan a welais i a chofio amdani.

Y Ty Cwrdd Coed.

Wedi'r Troad Allan codwyd y tŷ cwrdd coed er cael lle i addoli hyd oni cheid y capel newydd yn barod. Codwyd ef ar dir o eiddo fy nhad ar ochr yr heol fawr ger pentref Rhydowen, lle yn yr hen amser oedd ffermwyr yn silio ei llafur cyn ei falu yn flawd. Saif y tŷ heddiw yn hollol fel ei codwyd ac y mae yn anneddle cysurus. Cofiaf am fynd i'r ysgol Sul yno bob Sul am tua tair blynedd. Ni chofiaf pwy oedd ein athro chwaith, ond cofiaf yn dda mai Thomas Evans (Tomos Twcwr fel ei gelwid) oedd yn ein dysgu i ganu, a 'nhad gyda'r Côr Mawr. Yr oedd llu o blant yn y gymdogaeth yr adeg yma, a'r ysgol Sul yn llond y tŷ.

Yr oedd yno hefyd bobl o bob oedran ; y Sul yn cael ei le priodol a'r rhieni yn gofalu fod y plant yn gyson yn eu lle ac yn parchu ei gilydd. Cofiaf hefyd am agoriad y tŷ Cwrdd Coed, sef Sul cyn y Nadolig, Rhagfyr 24, 1876. Canwyd emyn o eiddo Gwilym Marles ar gyfer yr achlysur : "Ior Mawr y Nef ! Anfeidrol Ri !", etc. (Gwêl *Perlau Moliant*, Rhif 120). Carwn awgrymu fod y dôn "Brynteifi" o eiddo ysgrifennydd y llith hwn yn un bwrpasol a chywir i'r emyn hwn.

Dydd Nadolig, Rhagfyr 25, 1876 cyfarfu ysgolion Sul Bwlchyfadfa, Llandysul a'r Llwyn yn y Tŷ Cwrdd Coed, a chafwyd adrodd a chanu gan blant ysgol Sul y tair cynulleidfa a'r lle yn llawn. (Yr oedd Llandysul dan yr un weinidogaeth y pryd hwn). Yr oedd wedi bod yn bwrw eira trwm yr wythnos cynt ac wedi rhewi fel y cawsom ni'r plant gyfle i sleidro ar gefn y ceffyl pren lawr yr heol hyd bont Rhydowen. Bu hwn yn ddiwrnod mawr yn hanes y Llwyn. Tua'r flwyddyn 1878 (nid wyf yn sicr), aethpwyd yn ôl i'r Hen Dŷ Cwrdd, a'r cof cyntaf sydd gennyf yw am ein athrawon ysgol Sul. Yr oedd llewyrch mawr ar ysgol Sul y Llwyn yr adeg hon, plant, pobl canol oed, a rhai hynafgwyr yno bob Sul. O'r rhai hyn oll, Mr. David Thomas, Rhydowen Shop oedd blaenor ac arolygydd y lle am flynyddoedd. Yr oedd yn ddyn talentog ac o agwedd ac ymddangosiad personol a oedd yn gofyn am ein sylw, a perchid ef yn fawr gan bawb. Yr oedd ei bresenoldeb i ni y plant yn ddigon i gadw disgyblaeth priodol bob amser. Bu Mr.

Thomas a'r teulu i gyd yn asgwrn cefn i gynulleidfa'r Llwyn drwy yr holl helynt bythgofiadwy. Er mwyn amlygu parch y gynulleidfa iddo, rhoddwyd gwobr anrhydeddus am farwnad coffadwriaethol yn yr Eisteddfod 1889, a wele rai o'r penillion buddugol gan T. Melindwr Davies, Llansawel :—

Fel *Dyn* fe deimla'r ardal hon
O galon barch i'w enw,
Fe dorrwyd archoll dan ei bron
Drwy'r newydd blin o'i farw :
Ymglymai ein serchiadau pur
Fel rhaffau aur am dano :
Cylymau fu yn dal yn hir
Gan angau dorwyd yno.

Cymydog mwyn caredig fu,—
Di-ri ei gymwynasau :
I'w gofio fel colofnau lu
Y pery ei rinweddau ;
Dyn hynaws, tyner-galon iawn,
A'i fron yn llawn tynerwch,
Ei weld bob amser oedd yn llawn
Sirioldeb a hawddgarwch.

Masnachwr pwyllog, gonest, call ;
Ef ni anturiai'n annoeth.
A thrwy ymdrechion dewr, di-ball,
Y casglodd ef ei gyfoeth.
Ei golli ef fel masnach ddyn,
Sydd fwlch anhawdd ei lenwi,
'Roedd David Thomas yma'n un
Roes fawr wasanaeth inni.

Crefyddwr oedd fawr garai Dduw,
Gŵr mawr oedd ef yn Isr'el,
Dyrchafodd grefydd drwy ei byw
Yn gywir, ffyddiog, tawel :
Os prudd yw'r eglwys yn y Llwyn
Am frawd a fu mor ffyddlon :
Na or-alarwn, cadd ei ddwyn
O'r Llwyn i ddinas Seion.

Eto yn gyd-fuddugol :—

Dyletswydd, Rhyddid a Iawnderau dyn
A fyddant fyth a'i enw ef yn nglŷn :

A'i gof i'r oesau, ddêl a gaiff ei ddwyn,
A gwyrddlas fydd tra maen ar faen o'r Llwyn.

I ddilyn, ceir hanes blaenoriaid ac athrawon ffyddlon yr ysgol Sul.

Priodas.

Yn Ebenezer, Llangybi, Mai 19, Miss ELIZABETH MARY LLOYD, Llanio-isaf a GWILYM WILLIAMS, Dolaugwyrddon, Llanbedr. Gwasanaeth gan y Parch. E. Islwyn Davies, gweinidog Ebenezer, a S. Evans Bowen, Alltyplaca.

Marwgofion.

Ebrill 10, yn 67 mlwydd oed, DAVID DAVIES, Inglefield, Hove, Brighton. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. David Davies, Llythyrdy, Felinfach, Ceredigion. Aeth allan o'i dŷ y dydd uchod yn iach, a chan feddwl dychwelyd ymhen ychydig amser, ond wrth siarad a chyfeillion, syrthiodd yn farw. Yr oedd yn un o deulu lluosog, ond nid erys o'r teulu hwnnw erbyn hyn, ond un, sef Mr. Jenkin Samuel Davies, Arolygydd Bwrdd Iechyd Cymru, sydd yn byw yng Nghasnewydd, Mynwy. Cychwynodd Mr. David Davies ei yrfa yn y Llythyrdy yn Llandysul. Ar ôl hynny bu yn Stonehouse, Henffordd a Porth. Achos y symudiadau hyn oedd ei fod yn cael ei ddyrchafu bob tro. Yr oedd yn ddyn ieuanc uchelgeisiol a chan ei fod yn un a gyflawnai ei waith gyda chywirdeb a ffyddlondeb cafodd ei benodi yn gynnar yn Feistr Llythyrdy yn Skeerness. Dyrchafwyd ef drachefn i fod yn Feistr Llythyrdy ym Mhontypridd, Scarborough, Bromley ac Aberdeen, ac yn ddiweddaf yn Brighton. Ac yntau yn y lle olaf ymddiswyddodd o'i alwedigaeth. Gwelir fod rhywbeth yn nodedig ynddo, oblegid yr oedd bod yn Feistr Llythyrdy yn Aberdeen a Brighton yn golygu fod gan y rhai oedd mewn awdurdod ymddiriedaeth fawr ynddo. Nid oedd ganddo ddim arall yn ei ffafr i gael ei ddyrchafu felly ond ei gymwysderau ef ei hun. Cafodd esiampl dda pan yn ieuanc gan ei dad a'i fam, a diau fod hynny yn cyfrif yn rhannol am ei lwyddiant. Gadawodd weddw a dau fab mewn galar dwys. Mae y meibion mewn swyddi uchel.

Ebrill 14, ar ôl cystudd cymharol fyr, JOHN EVANS, Pontbren, Tregroes, yn 76 oed. Treuliodd ei oes yn ardal Tregroes yn weithiwr egniol ac yn fawr ei barch. Magodd deulu lluosog, a bu'n briod a thad gofalus. Cafodd ef a'i briod 57 mlynedd o fywyd priodasol—oes faith o gydgerdded mewn heddwch a'u gilydd. Gadawodd i alaru'i golli briod oedranus, meibion, merched, wyrion, chwaer a nifer luosog o berthynasau eraill a chyfeillion. Y Mawrth

dilynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins ; R. Morris (B), Penybont ; D. Rhydderch (A), Seion ; D. A. Williams (A), Carmel ; D. A. Thomas, Ficer Ceinewydd a dau gurad Llandysul.

Ebrill 15, bu farw DAVID DAVIES, Penlanganol, Cwrtnewydd yn 75 oed. Bu yn eiddil am flynyddoedd, ond parodd yn ddiwyd ar ei fferm hyd rhyw chwe mis yn ôl—ac yna hyd ei ddiwedd yr oedd megis pren yn raddol wywo. Yr oedd yn ŵr hynaws tawel, ac i'w gyfeillion agos y mwyaf ffyddlon. Yn yr angladd y dydd Iau dilynol yng Nghapel-y-Bryn gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen a Lewis Williams. Gadawodd briod, tri mab a merch mewn galar o'i golli.

Ebrill 26, JOHN G. BOWEN, Gilfach-merson, ger Capel Iwan yn 76 oed. Mab ydoedd i'r diweddar John a Rachel Bowen, Llwyneinon, ac felly hanai o deulu lanwodd le pwysig ym mywyd yr ardal. Cofiwn y teulu yma'n deulu lled luosog ond yn ystod y blynyddoedd diweddaf mae amryw ohonynt wedi ei galw adref. Treuliodd bum mlynedd ar hugain yng ngwasanaeth y cyllidydd J. Pierpoint Morgan yn yr Unol Daleithiau. Amaethwr pwysig a llwyddianus oedd y brawd yma—un wedi ymroddi i'w alwedigaeth a dyn pwysig ym mywyd amaethyddol y cylch. 'Roedd hefyd o gorff cadarn ac o allu meddyliol cryf. Gadawodd i alaru ei golli briod, tair merch, mab, brodyr—y Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca yn un ohonynt—chwiorydd, ac amryw berthnasau eraill. Claddwyd y Llun dilynol yn ymyl claddfa'r teulu ym mynwent Panteg a chafodd gynhebrwng parchus iawn. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. E. O. Jenkins ; W. Thomas, Capel Iwan ; Ieuan Jenkins, Rehoboth ; T. P. Jarman, Maenygroes a Gwynfor Stephens, Ficer Cilrhedyn.

Mai 5 bu farw WILLIAM JENKINS, Tynrhos, Llanwenog yn 60 oed, ar ôl cystudd caled, ond yn drugarog, cymharol byr. Y mae hiraeth yn y gymdogaeth o'i golli oherwydd yr oedd yn gymeriad hynaws ac yn gymydog parod ei help. Rhoddai o'i orau i'w waith ar ei dyddyn ac yn ei wasanaeth ar heolydd y cymdogaethau. Y dydd Mercher dilynol gosodwyd y rhan farwol ohono ym mynwent Capel-y-bryn, lle gorwedd yn barod weddillion ei briod a dwy ferch. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. S. E. Bowen ac Anthony Davies, Capel-yr-Erw, Cellan. Cydymdeimlir yn fawr a'r tri mab a'r tair merch yn eu galar dwys.

Mai 12, WILLIAM EDWARD annwyl briod Mary Lewis, Maesglas, Prengwyn, Llandysul, yn 64 oed. Bu'r brawd yma drwy ryfel 1914—1918, a chymerodd ran yn amryw o'i brwydrau caletaf gan ennill nifer o fedalau. Effeithiodd hyn ar ei gyfansoddiad yn enbyd, ac am y 18 mlynedd olaf o'i fywyd bu'n bur afiach a llesg. Gadawodd briod—yr hon weiniodd yn ffyddlon arno drwy'r blynyddau—merch, wyr bach, a dau lysfab i alaru ei golli. Claddwyd y Mawrth dilynol ym mynwent Pantdefaid, a gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins a W. M. Jenkins, Rheithor Talgarreg.

Nodion yr Eglwysi.

Y PWYLLGOR YN NHREBANOS, 27 EBRILL, 1950—Yr oedd hwn o wir ddiddordeb ar gyfrif yr hyn a awgrymwyd ynddo yn fwy nac am yr hyn a gyflawnwyd ganddo. Ceir ystyriaeth o rhain a phenderfyniadau arnynt yn y Pwyllgor Blynyddol. Enwyd swyddogion am y flwyddyn nesaf; apwyntiwyd y Parch. E. O. Jenkins i lanw lle gwag ar bwyllgor myfyrwyr Coleg Caerfyrddin. Danfonwyd llongyfarchiadau i'r "London District Provincial Assembly" a dymuniadau gorau y Gymdeithas ym mherson y Parch. R. Islwyn Pritchard ar adeg dathlu ei canmlwydd ym mis Mai. Cafwyd newydd o Aberdâr y bydd dathlu Dau Can Mlwyddiant yn yr Hen Dŷ Cwrdd y dyddiau Sul, Llun a Mawrth, adeg y Pasc, 1951. Adroddodd y Parch. E. O. Jenkins iddo gynnal wyth gwasanaeth ym Mhenrhiw yn 1949, a gofynnodd am help i dalu'r draul teithio. Nid oedd ymddiriedolwyr Penrhiw wedi cwrdd hyd yn hyn, ond bwriadent wneud hynny ym mis Mai. Cefnogwyd apêl Trebanos am help oddi wrth y "General Assembly" i gwrdd â'r draul o atgyweirio yn fwyaf arbennig yn Gellionen. Yr oeddynt wedi treulio rhyw £1,500 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mynegodd Trebanos ei gofid yn herwydd prinder llyfrau pwrpasol ar gyfer ein hysgolion Sul Cymraeg, a gofynnodd am ystyriaeth o hyn yn y Cyfarfod Blynyddol. Cafwyd hefyd hysbysiad y bwriedir nodi yn deilwng y man lle gorffwys gweddillion y Parch. Josiah Rees ym mynwent Gellionnen. Derbyniwyd rhybudd o ddau benderfyniad i'w hystyried yn y Pwyllgor Blynyddol, sef (1) yn enw yr Is-Lywydd, Mrs. H. Park Davies, "Ein bod yn gwrthwynebu'r ymdrech i adfer chwipio fel cosb gyfreithiol"; (2) yn enw y Parch. D. Jacob Davies, "Ein bod fel mudiad o blaid yr ymdrech i gael senedd i Gymru."

ANRHEGU GWEINIDOG A'I BRIOD.—Caed cynulliad lluosog yn Festri Capel Ciliau Aeron nos Lun, Mai 15. Yr oedd diben deublyg i'r cyfarfod, sef cynnal y Sosial Flynyddol a chyflwyno anrhegion i'r Parch. a Mrs. Lewis Williams. Yn gyntaf caed tê a danteithion amrywiol a blasus. Yna dechreuwyd y gyngerdd o dan lywyddiaeth Mr. Idwal Evans, Bronfre. Ar ôl gorffen y rhan gyntaf o'r rhaglen aed at y gorchwyl o gyflwyno'r anrhegion. Cyflwynwyd y rhodd i Mr. Williams gan Mrs. Jonathan, Hampton House. Wrth wneud hynny llefarodd eiriau cymwys iawn. Dywedodd eu bod fel cynulleidfa yn mwynhau y gwasanaethau ar y Sul, ac yn teimlo eu bod yn derbyn lles oddi wrthynt. Datganodd ddymuniad am i Mr. a Mrs. Williams gael nerth am hir amser i lafurio yn eu plith. Cyflwynwyd rhodd i Mrs. Williams gan Mrs. Richards, Maesygaer. Soniodd am gymwyster Mrs. Williams fel gwraig gweinidog, a dywedodd am ei gweithgarwch gyda phob peth perthynol i'r eglwys. Ar ôl hynny siaradwyd gan yr Henadur Simon Davies, Y.H., Green Grove a chan y Parch. T. J. Jones, Ficer Ciliau, y ddau yn canmol yr eglwys am ei gwaith yn cydnabod gwasanaeth Mr. a Mrs. Williams, gan obeithio y byddai hynny yn galondid iddynt i barhau yn eu gweithgarwch. Diolchodd Mr. Williams am y rhoddion a,

dywedodd eu bod eich dau yn eu gwerthfawrogi yn fawr, ac yn teimlo fod caredigrwydd y cyfeillion yng Nghiliau yn dyfnhau eu teimladau da a pharchus tuag atynt fel y mae'r amser yn mynd ymlaen. Rhoddwyd anrheg i bob plentyn gan Miss Pugh, Llwyn. Yna aed ymlaen gyda'r ail adran o'r rhaglen, a chafwyd amser hapus iawn hyd y terfyn. Yn y diwedd diolchodd y Parch. Lewis Williams i'r gwragedd am y wledd odidog oeddynt wedi ddarparu ar gyfer y noson.

Y DIWEDDAR ATHRO MORRIS BRYNLLWYN OWEN, M.A., B.D.—Athro yng Ngholeg Henadurol Caerfyrddin 1907—1949. Hefyd gweinidog eglwysi'r Bedyddwyr yn Salem, Felinwen, a Sitim, Felingwm o 1925 hyd 1949. Dydd Iau, Ebrill 20, am ddau o'r gloch, dadorchuddiwyd maen coffa ar fur eglwys Sitim i'r diweddar Athro Owen. Rhodd ei ferch, Minwen (Mrs. Bowyer, Llundain) oedd y maen cof, ond oherwydd anhwyldeb, methodd hi a bod yn bresennol, felly dadorchuddiwyd gan ei chwaer, Miss Estlin Owen. Yr oedd y prynhawn yn hyfryd, a daeth torf luosog ynghyd i ddangos eu parch i'r Athro Owen. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parah. James Thomas, B.A., Caerfyrddin, arweiniwyd y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y Parchn. Ajax Jenkins a William Harry, B.A., a phregethodd y Parch. D. Eirwyn Morgan, M.A., B.D. bregeth bwrpasol iawn ar yr achlysur. Dymunaf innau'n bersonol fynegi'n amherffaith fy mharch iddo a'm hedmygedd ohono. Bum yn cydweithio ag ef am dair blynedd yng Ngholeg Caerfyrddin, ac ni allwn ddymuno am well cyd-weithiwr nag ef. Yr oedd yn alluog, yn berchennog ar wybodaeth eang, yn weithgar a chydwybodol yn ei waith, ac yn ddoeth. Perchid ef yn fawr gan y myfyrwyr, ac yr oedd ganddo ffordd effeithiol o ennill eu parch iddo ef, a'u diddordeb yn ei ddarlithiau. Mi a'i cefais ef yn gyd-weithiwr y gallwn roddi ymddiried llwyr ynddo. Yr oedd yn y Coleg bob bore, ai teg ai garw'r tywydd, ryw ugain munud mwy neu lai, cyn amser y gwasanaeth defosiynol, er bod ganddo ryw bedair milltir o daith. Yr oedd yn barod bob amser i wneuthur a allai er lles y myfyrwyr a llwyddiant y Coleg. Arno ef yr oedd gofal y llyfrgell, ac nid esgeulusodd un agwedd o'r gofal hwnnw. Trwy ei farwolaeth, collwyd un o bileri'r Coleg, a chwithig iawn fydd gweld ei le yn wag yn y dosbarthau, ac yng nghyfarfodydd arbennig y sefydliad. Nd oedd dim culni enwadol yn perthyn i'r Athro Owen. Yr oedd yn ymgorfforiad o'r egwyddor fawr a ddylai reoli pob athrofa—mai prif amcan addysg yw ceisio chwilio'n ddiofn am y gwirionedd a gwerthoedd uchaf bywyd.

J. Islan Jones.

FFACTRI LAETH FELINFACH.—Ymgais yw'r Nodiadau Golygyddol i gadw golwg ar symudiadau cymdeithasol sydd a fynnont a'n cylchoedd a'n ffydd mewn unrhyw ffordd. Ni haerir ar unrhyw bryd fod y Nodiadau yma yn ddeddf ar unrhyw fater, dim ond barn onest un gŵr digon cyffredin ydynt. Felly disgwyliaf y bydd llawer o anghytuno â'r hyn a ddywedir *a bydd lle i unrhyw ddarllennydd bob amser i ddatgan barn wahanol ar dudalennau'r* Ymofynnydd. Ymddengys fy mod (trwy gamddeall y mae'n sicr), wedi

tramgwyddo rhai ar y testun uchod gan iddynt gredu fy mod yn dilorni'r ffactri laeth. O ddarllen y nodiad yn ofalus gwelir fy mod yn croesawu'r ffactri, ond yn gofyn am *fwy* a'r mwy hynny yn y pendraw yn mynd i sicrhau llwyddiant *arhosol* y ffactri a lles pawb a'r enwad yn yr ardal.

YMOFYNNYDD—APEL ETO.—Gofynnaf am apêl daer ymhob eglwys am i'r hen ffyddloniaid ddal ati i gefnogi'r YMOFYNNYDD ac am ddarllenwyr newydd o blith yr ifainc. Mynner cael o leiaf un darllenwr newydd ymhob tŷ Cwrdd. Bydd YMOFYNNYDD Gorffennaf yn un arbennig iawn ; gobeithaaf y bydd clawr newydd iddo ac y bydd y cynnwys o safon uchel, yn enwedig yr erthyglau gan wŷr blaenllaw ar safbwynt yr Undodiaid ar bynciau crefydd. Byddwch genhadon—y mae angen eich cefnogaeth.

LLWYNRHYDOWEN.—Sul, Mai 7 cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol Urdd y Chwiorydd yn y lle hwn. Cafwyd cynulliad pur dda er fod amryw yn absennol yn herwydd afiechyd. Cymerwyd y gwasanaeth gan Mrs. Lewis, Tŷ'r Ysgol, Cwrtnewydd, a chafwyd gwasanaeth rhagorol drwyddo. Dewisodd yn destun "yr emyn a lle'r emyn mewn gwasanaeth o addoliad," a chafwyd anerchiad a werthfawrogid, ni a gredwn, gan bawb. Ar ran y chwiorydd cyflwynwyd diolch cynnes i Mrs. Lewis gan Miss Myra Parry a Mrs. Jones, Heulwen. Cymerwyd casgliad at Drysorfa'r Myfyrwyr.

DIOLCH AM—

DIOLCH am swyn hen emynau
A thawelwch hen lwybrau cain
Heulwen, a ffresni blodeuos ;
—Am rybudd mieri a drain,
—Chwerthin a chwrlyn ar wegil
Y bychan di-nam ysgafn drôd,
Diolch am syber wyleidd-dra
Cyfoedion crefyddol, di-nôd.
Diolch am gyfoeth aur eithnen
A rhudd wridog swildod y grug ;
—Swyn fonedd lili'r dyffrynnoedd
A nodau per fiwsig y wig.
Diolch am gyngor tymhorol ;
Tawelwch cydwybod fo'n bur,
Ac am sibrydion cariadlon
A chusan y wawrddydd fwyn glir.
Diolch am famau a thadau
Am gân, am athrylith a swyn
—Am bregeth pwnshin o flodau
Yn het Gwilym Marles o'r Llwyn.

NANCE.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.